# SL(6)624 - Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Cyflwynodd *Deddf Seilwaith (Cymru) 2024* (“**Deddf 2024**”) drefn gydsynio unedig ar gyfer prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru.

Mae *Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Caffael Gorfodol) (Cymru) 2025* (y “**Rheoliadau**”) yn rhan o gyfres o reoliadau sy'n gweithredu ac yn darparu manylion y prosesau sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2024.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefnau lle bydd y gorchymyn cydsyniad seilwaith yn awdurdodi caffael tir neu hawliau dros dir yn orfodol.

Nid yw'r materion a bennir a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn yn berthnasol i bob cais, ac maent yn ychwanegol at unrhyw ofynion a gynhwysir mewn rheoliadau eraill sy'n gweithredu Deddf 2024 (megis *Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025*).

Drwy gydol y broses gwneud cais, mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ychwanegol i roi amrywiol hysbysiadau i bersonau sydd â buddiant yn y tir y mae'r archiad caffael gorfodol yn ymwneud ag ef. Yn ystod y broses cyn gwneud cais, lle nodir personau ychwanegol, estynnir y cyfnod cyflwyno cais er mwyn galluogi ymgynghori â'r personau hynny. Rhaid i gais am gydsyniad seilwaith gynnwys gofynion ychwanegol hefyd.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd yr 8 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae “p*erson ychwanegol a chanddo fuddiant*" wedi'i ddiffinio yn rheoliad 3 fel "*person â chanddo fuddiant **na** roddwyd hysbysiad ysgrifenedig iddo yn unol â rheoliad 5, 7 neu 16*".

O dan reoliad 5, rhaid i geisydd roi hysbysiad o'r cais arfaethedig i berson a chanddo fuddiant. Os nodir personau ychwanegol a chanddynt fuddiant ar ôl rhoi hysbysiadau o'r fath, rhaid rhoi hysbysiad i'r personau ychwanegol hynny a chanddynt fuddiant o dan reoliad 7 hefyd.

Fel y'i drafftiwyd, ymddengys yn rhesymegol diffinio '*person ychwanegol a chanddo fuddiant*' fel person na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig iddo o dan reoliad 5.

Fodd bynnag, bydd person o dan reoliad 7 wedi cael hysbysiad ysgrifenedig (er yn diweddarach). Felly, holwn a yw'n rhesymegol ac yn angenrheidiol cyfeirio at reoliad 7 yn y diffiniad.

Mae hefyd yn aneglur a ddylai'r cyfeiriad at reoliad 16 fod yn gyfeiriad at reoliad 15 yn lle hynny (sy'n cyfeirio'n benodol at 'berson ychwanegol a chanddo fuddiant').

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio sawl gwaith at '*tir amnewid*'. Er enghraifft, os yw cais cynllunio a wneir o dan Ddeddf 2024 yn cynnwys archiad caffael gorfodol, efallai y bydd yn ofynnol i geiswyr gyflwyno plan sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, unrhyw 'dir amnewid'.

Er bod y term hwn wedi'i ddiffinio yn Neddf 2024, nid yw wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau hyn.

Yn ein barn ni, dylid ystyried cynnwys diffiniad yn rheoliad 3, gan groesgyfeirio at y diffiniad perthnasol yn Neddf 2024 (fel y gwneir ar gyfer nifer o dermau eraill yn y Rheoliadau, megis '*tir*' ac '*y darpar brynwr*'). Fel arall, byddai troednodiadau croesgyfeirio hefyd yn hybu hygyrchedd ac yn rhoi sicrwydd.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r offeryn yn hepgor geiriau penodol mewn sawl lle.

Yn rheoliad 8(2), mae'r cyfeiriad yn anghyflawn gan ei fod yn cyfeirio'r darllenydd at "yn (1)", ond dylid ei ddisgrifio'n gywir fel "**ym mharagraff** (1)". Mae hyn hefyd yn digwydd yn rheoliad 15(4) lle mae'n nodi "yn unol â (2)" ond dylai nodi "yn unol â **pharagraff** (2)". Yn ogystal, mae'n digwydd yn rheoliad 30(c), lle mae'n nodi "yn (b)" ond dylai nodi "**ym mharagraff** (b)".

At hynny, yn rheoliad 10(1), mae'r cyfeiriad at "*adran 38(2)*)" yn anghyflawn gan nad yw'n nodi'r Ddeddf y cyfeiria'r adran ati. Felly, dylai gyfeirio at "adran 38(2) **o Ddeddf 2024**" i gwblhau ystyr y cyfeiriad.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 19(1)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "*all land interests*" ond yn y testun Cymraeg nodir "*pawb a chanddynt fuddiannau mewn tir*". Felly, mae ystyr yr ymadrodd yn aneglur yn y ddarpariaeth hon.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliadau 19(2)(l) a 20(5)(l), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi yn y ddau le, "*the details of how representations* ***can*** *be made*" ond yn y testun Cymraeg, nodir "*manylion ynghylch sut y* ***caniateir*** *cyflwyno sylwadau*". Nid yw'r testun Saesneg, felly, ond yn awgrymu manylion ynghylch ffordd bosibl o gyflwyno sylwadau, ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at fanylion y ffordd y caniateir i chi wneud sylwadau yn ôl y gyfraith.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 20(6), mae'n cyfeirio at drin Gweinidogion Cymru fel pe baent wedi "*cydymffurfio â'r paragraff perthnasol*" mewn cysylltiad â chamau a gymerir i amnewid hysbysiadau sydd wedi'u difwyno.

Nid yw'r drafftio hwn yn arbennig o ddefnyddiol i'r darllenydd wrth gyfeirio at gydymffurfio â gofynion cyfreithiol gan nad yw'n glir at ba baragraff y mae'n cyfeirio. Byddai'n fwy priodol cyfeirio'r darllenydd at baragraff penodol sydd wedi'i rifo sy'n nodi'r gofynion.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Yn rheoliad 21(3), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "*as specified in any notice*" ond yn y testun Cymraeg, nodir "*fel y nodir mewn unrhyw hysbysiad*". Dylai'r testun Cymraeg fod wedi defnyddio "pennir" yn hytrach na "nodir" i gyfleu'r term Saesneg "specified" gan mai "pennu" yw'r gair safonol am "specify" yng Ngeirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

O dan amgylchiadau penodol, rhaid i hysbysiad caffael gorfodol gynnwys 'datganiad declarasiwn breinio cyffredinol'. Mae cynnwys datganiad o'r fath wedi'i ragnodi o dan reoliad 30.

Defnyddir termau penodol yn rheoliad 30 sydd wedi'u diffinio yn *Neddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981* (megis "tir" ("land") a "tenantiaeth" ("tenancy")). Yn ogystal, mae'r term "*tenantiaeth hir sydd i ddod i ben*" ("*long tenancy that is due to expire")* yn rheoliad 30(f) yn debyg iawn i'r term "long tenancy which is about to expire" a ddiffinnir gan adran 2 o Ddeddf 1981.

Byddem yn ddiolchgar o gael cadarnhad a yw'r termau hyn i fod i ddwyn yr un ystyr yn rheoliad 30 ag a geir yn Neddf 1981.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â’r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.